

AROLWG BLYNYDDOL 2014-2015

ADEILADU AR LWYDDIANT



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYNNWYS

3 RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

4-9 UCHAFBWyNTIAU 14/15

10-13 YMCHWIL

Ymchwil gyda'r orau yn y byd
Y Gwyddelod ac Albanwyr cristnogol cynnar y cyntaf i droedio Gwlad yr Iâ
Profi dulliau i athrawon
Ymarfer corff i gadw'n iach
Gall dirywiad mewn bywyd gwyllt arwain at 'dirwedd wag'
Profion TB cyflym i achub bywyd

14-15 DYSGU AC ADDYSGU

Myfyrwyr bodlon iawn
Achrediad i ddyfarnu Cymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch
Ffug Lys Barn newydd ym Mhrifysgol Bangor

16-17 RHYNGWLADOLI

Graddedigion cyntaf carfan MBA RITS-Bangor
Partneriaethau Rhyngwladol
Cydwethio â De Ddwyrain Asia

18-19 CYFRWNG CYMRAEG

hAppus i ddysgu Cymraeg!
Gwneud gwahaniaeth mewn gofal iechyd yn yr iaith Gymraeg
Ffair swyddi Cymreig

20-24 CYMUNED

Cytundeb partneriaeth allweddol
Y siop Bwydydd Hyll yn llwyddiant
Datblygiadau'r parc gwyddoniaeth
Pontio yn dechrau agor
Clust i Wrando
Cyfle gwirfoddoli cymunedol

LLYWODRAETHU

Y Cyngor yw corff llywodraethol y Brifysgol, a chyfarfu bedair waith yn 2014/15 dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC. Dirprwy Gadeiryddion y Cyngor yw Syr Peter Davis a Mr David Williams. Ysgrifennydd y Brifysgol yw Dr Kevin Mundy. Caiff y Cyngor ei gynorthwyo gan nifer o is-bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a gadeirir gan y Trysorydd, Mr David Williams, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a gadeirir gan Mr Geraint Jones, gyda'r ddau wedi cyfarfod pum gwaith. Dyma bwyllgorau eraill y Cyngor a gyfarfu yn ystod y flwyddyn sef y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Moeseg, Pwyllgor Dwyieithrwydd a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae rhagor o wybodaeth am drefn llywodraethu'r Brifysgol yn www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy

Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

01248 383298 ywasg@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk

Llun y clawr: © Iwan Williams

RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Yn ystod y flwyddyn dan sylw gwnaeth Prifysgol Bangor gynnydd sylweddol o ran cadarnhau ein safle yn yr haen uchaf o brifysgolion yng Nghymru ac, yn wir, yn rhyngwladol.

Yn fwyaf nodedig, am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd Bangor ar y brig yng Nghymru yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ac yn gydradd seithfed ymhlith prifysgolion anarbenigol y DU. Gosodwyd chwech o'n Hysgolion yn y safle cyntaf yn y DU ac mae'r brifysgol yn ymddangos yn y 10 uchaf yn y DU mewn 19 o feysydd pwnc. Mae hyn yn dangos yn gwbl eglur mor uchel yw'r brifysgol yng ngolwg ein myfyrwyr, gan adlewyrchu'r safonol rhagorol sydd ar gael ym Mangor.

Mae ystod eang o fesurau eraill hefyd yn cadarnhau safle cadarn Prifysgol Bangor o fewn addysg uwch yn y DU, yn cynnwys Arolwg Profiad Myfyrwyr y Times Higher Education, a osododd Bangor yn 14^{eg} yn y DU, ac Arolwg Graddedigion Gorau y Times Higher Education a roddodd Bangor yn y 40 uchaf yn y DU. Cydnabuwyd ein cryfderau ymchwil hefyd yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a osododd Bangor yn safle 39 yn y DU, heb gyfrif prifysgolion arbenigol. Drwodd a thro, ystyriwyd bod dros dri chwarter yr achosion ymchwil a gyflwynwyd gan y Brifysgol o safon gyda'r orau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol.

Symudwyd ymlaen yn sylweddol â'n rhaglen buddsoddi cyfalaf yn ystod 2014/15. Gwnaed cynnydd mawr yn ystod y flwyddyn ar ein project i adeiladu llety o ansawdd uchel i fyfyrwyr yn y Santes Fair, a agorodd ar ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16. Llwyddodd y Brifysgol hefyd i ddod dros yr oediadau maith a achoswyd gan y contractwr i'n project Pontio uchelgeisiol. Erbyn hyn mae gennym adeilad gwych a fydd yn gwneud cyfraniad eithriadol i fywyd addysgol, cymdeithasol a diwylliannol ein myfyrwyr a'n rhanbarth. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ogystal gyda chynllunio ein Parc Gwyddoniaeth newydd ar Ynys Môn, a gefnogir gan gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwaith cynllunio hefyd wedi dechrau ar broject i ailgynllunio, moderneiddio a helaethu cyfleusterau'r gwyddorau ar ein campws ynghanol Bangor.

Gwnaed cytundebau ffurfiol rhwng y

Brifysgol a busnesau pwysig yn y rhanbarth yn ystod 2014/15. Mae Memoranda o Ddealltwriaeth â *Horizon Nuclear Power* yn Wylfa a chyda *Siemens Diagnostic Healthcare* yn Llanberis yn pwysleisio perthnasedd y brifysgol i brif gyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn adlewyrchu'r ffordd broffesiynol rydym yn rheoli'r cysylltiadau pwysig hyn. Fe wnaethom barhau hefyd i weithio'n agos â busnesau bychain a chanolig yn ein rhanbarth. Dan y project KESS 1, a ddaeth i ben yn 2015, gweithiodd Prifysgol Bangor â 163 o gleientiaid ar draws ystod o sectorau busnes, ac rydym yn edrych ymlaen at arwain rhaglen KESS 2 helaethach a fydd yn dechrau'n syth.

Yn ystod y flwyddyn mabwysiadwyd cynllun strategol newydd y Brifysgol am y cyfnod 2015-2020. Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfeiriad strategol i Brifysgol Bangor fel prifysgol hyderus a llwyddiannus, sy'n gallu meddwl mewn ffordd wahanol i adnabod sialensiau, risgiau a chyfleoedd yn holl feysydd ein busnes.

Parhaodd ein sefyllfa ariannol i wella yn ystod 2014/15. Roedd gennym weddill gweithredu o £1.3m sy'n adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a wnaed ym meysydd rheoli cost ac effeithlonrwyd gweithrediadol. Fe wnaeth llwyddiant cadarn o ran recriwtio myfyrwyr yn y marchnadoedd cartref a rhyngwladol hefyd wneud cyfraniad mawr i wella ein sefyllfa ariannol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch i aelodau'r Cyngor ac i gydweithwyr ar draws y Brifysgol am eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r hyn a fu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i Brifysgol Bangor.

YR ATHRO JOHN G HUGHES IS-GANGHELLOR





UCHAFBWyNTIAU

Cyflwynwyd cymrodoriaethau er anrhydedd i nifer o bobl yn seremonïau graddio'r brifysgol. Dyma nhw: **Gruff Rhys**, cerddor roc ac aelod o'r Super Furry Animals; **Huw Stephens**, troellwr ar Radio 1; **Lowri Evans**, Cyfarwyddwr Cyffredinol Materion y Môr a Physgodfeydd y Comisiwn Ewropeaidd; **Jeremy Howell**, a raddiodd ym Mangor ac sydd bellach yn Athro ym Mhrifysgol San Francisco; **Dr David Roberts**, cyn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd Prifysgol Bangor; **Bernard Taylor CBE**, a raddiodd ym Mhrifysgol Bangor, Cadeirydd presennol Cambridge Laboratories Ltd; **Myrddin ap Dafydd**, Sylfaenydd Gwasg Carreg Gwalch; **Meirion Prys Jones**, Cadeirydd y Rhwydwaith er Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a chyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg; **Nicholas Snowman OBE**, cadeirydd cwmni Wartski, cwmni gwneud gemwaith enwog sydd â'i bencadlys yn Llundain, a **Shireen Chambers**, a raddiodd ym Mangor ac sydd bellach yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Thechnegol, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.

- 1 Gruff Rhys
- 2 Huw Stephens
- 3 Lowri Evans
- 4 Jeremy Howell
- 5 Dr David Roberts
- 6 Bernard Taylor CBE
- 7 Myrddin ap Dafydd
- 8 Nicholas Snowman OBE
- 9 Shireen Chambers
- 10 Meirion Prys Jones

Mae'r Athro Gary Carvalho o **Ysgol Gwyddorau Biolegol** yn gyd-olygydd ar y *Fish and Fisheries Journal* sy'n cael ei gyfrif fel y cyfnodolyn gorau yn ei faes. Mae'n adnodd hanfodol i bawb sydd â diddordeb ym miolog, cadwraeth a defnydd pysgod, ac mae wedi cofnodi Ffactor Effaith o 8.755, canlyniad gwych a dwywaith ffactor effaith y cyfnodolyn nesaf ato.

Cafodd Dr Yvonne McDermott, darlithydd yn **Ysgol y Gyfraith** ei phenodi i swydd dair blynedd bwysig, yn Gymrawd Academaidd Cymdeithas Anrhydeddus yr Inner Temple. Mae'n un o ddim ond pedwar o academyddion blaenllaw a ddewiswyd gan y Gymdeithas, un o bedwar Ysbyty'r Brawdlys yng Nghymru a Lloegr. Ysbytai'r Brawdlys yn unig sydd â'r hawl i alw ymgeiswyr i ymarfer wrth Far Cymru a Lloegr.

10 Darlithwyr Coleg Cymraeg newydd (o'r chwith): Manon Wyn Williams, Gerwyn Owen, Owain Wyn Jones ac Eleri Jones.



11 Y ffisiotherapyddion llwyddiannus: (o'r chwith) Maddy Nicholson, Cathy Wynne, Rob Caine ac Ann Harpum.



Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, penododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol unigolion i swyddi mewn gwahanol feysydd ym Mhrifysgol Bangor er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg. Y staff newydd oedd Eleri Jones, yr **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer**; Owain Wyn Jones, **Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg**; Gerwyn Owen, **Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau** a Manon Wyn Williams, **Ysgol y Gymraeg**.

Mae Dr Charles Buckley o'r **Ysgol Addysg** wedi ei gydnabod yn Brif Gymrawd o'r Academi Addysg Uwch, i gydnabod ei gyfraniad at ddatblygu addysgu a dysgu.

Mae pedwar ffisiotherapydd sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod ymhlith y rhai cyntaf yn eu proffesiwn yng Nghymru i gael rhoi moddion ar bresgripsiwn i'w cleifion, yn dilyn cwrs trosi a ddysgwyd ac a aseswyd gan yr **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd**.

Mae Prifysgol Bangor wedi dyfarnu Cadair er Anrhydedd i'r Athro Mark Bellis, ymchwilydd rhyngwladol adnabyddus a chynghorwr ym maes iechyd cyhoeddus, i gydnabod ei lwyddiannau mewn sawl maes iechyd cyhoeddus, yn cynnwys atal trais, alcohol, cyffuriau ac iechyd rhywiol. Bydd yn darlithio ac yn cyfrannu at ymchwil yn y **Coleg Iechyd a Gwyddorau Ymddygiad**.



Ar ôl cyfnod o atgyweirio ail-agorwyd Canolfan Chwaraeon Prifysgol Bangor yn swyddogol gan Syr Dave Brailsford. Enw newydd y ganolfan yw **Canolfan Brailsford**, er anrhydedd i'r rheolwr beicio llwyddiannus. Mae hyn yn dilyn buddsoddiad o £2.5 miliwn a phroject ailfodelu a barhaodd am flwyddyn.

Mae Prifysgol Bangor a Horizon Nuclear Power, sy'n eiddo i gwmni electroneg byd-eang blaenllaw Hitachi Ltd, wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth ffurfiol a fydd yn galluogi'r ddau sefydliad i gydweithredu a chydweithio'n agosach mewn blynyddoedd i ddod. Dyma Femorandwm o Ddealltwriaeth cyntaf Horizon Nuclear Power gyda phrifysgol yng Nghymru i gydweithio ar faterion yn ymwneud â'r cynllun i godi gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd yng nogledd Cymru.

Cafodd myfyriwr gwyddor chwaraeon, Joshua Brewer-Smith, ei ddewis i arwain caiacwyr dŵr gwyn gorau'r Deyrnas Unedig yn Nhaith Caiacio Prifysgol Prydain 2015, taith estynedig i Madagascar i ddarganfod rhannau newydd o'r dyfroedd gorau yn y byd nad oes neb wedi bod arnynt erioed o'r blaen. Bydd y tîm yn cofnodi ac yn

cyhoeddi eu canfyddiadau i gynorthwyo caiacwyr a rafftwyr yn y dyfodol.

Cafodd yr Athro Gary Carvalho o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** ei benodi'n Gadeirydd Gweithgor Cyngor Rhyngwladol Fforio'r Môr. Fe fydd yn cadeirio'r Gweithgor Cymhwysio Geneteg mewn Pysgodfeydd a Môr-Feithrin am 3 blynedd o 1 Ionawr 2015 ymlaen.

Cafodd yr Athro Ludmila Kuncheva FIAPR FLSW, yr **Ysgol Cyfrifiadureg**, yr Athro Rhiannon Tudor Edwards FLSW, Athro Economeg Iechyd a Chyd-Gyfarwyddwr **Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau**, yr Athro Helen Wilcox FEA FRSA FRSL FLSW, yr **Ysgol Llenyddiaeth Saesneg** a'r Athro Angharad Price FLSW, **Ysgol y Gymraeg** eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Un arall a etholwyd yn gymrodor oedd yr Athro Bridget Emmett FSB FLSW, Arweinydd Maes Gwyddor Pridd, Pennaeth Isadran a Phennaeth y Safle, **Canolfan Ecoleg a Hydroleg NERC** sydd mewn partneriaeth ag **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** fel rhan o Ganolfan yr Amgylchedd Cymru.

1 Syr Dave Brailsford (ar y dde) gyda'r Athro John G Hughes, yr Is-ganghellor, yn agoriad swyddogol Canolfan Brailsford yn dilyn cyfnod o atgyweirio.



2 Jane Wright gyda'i Gwobr.



3 Tim y daith yn y gweryll isaf.

Mae Jane Wright, darlithydd yn yr **Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd**, wedi derbyn Gwobr Nyrsio'r Frenhines. Mae'r wobwr yn cydnabod ei gwaith mewn addysg, gyda'r gweithlu nyrsio cymunedol a nyrsys cymunedol y dyfodol.

Daeth y Dywysoges Frenhinol i ymweld â gorsaf ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn ym mis Chwefror. Cafodd y Dywysoges Frenhinol weld engreifftiau o'r mathau o ymchwil allweddol sy'n cael ei gwneud gan **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth**, sy'n rheoli Gorsaf Ymchwil Henfaes. Clywodd hefyd am waith allweddol y brifysgol yn helpu ffermwyr i adfer tir amaethyddol a ddifrodwyd yn dilyn digwyddiadau hinsawdd eithafol, megis y llifogydd a gafwyd yng Ngwastadeddau Gwlad yr Haf.

Bu academyddion o'r **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** ar daith i fynyddoedd yr Himalaya fel rhan o broject ymchwil i ymchwilio i salwch cysylltiedig ag uchder. Trefnwyd y daith gan Medical Expeditions, a dilynwyd llwybr trecio o gwmpas mynydd Manaslu, sy'n 8000m o uchder. Cyrhaeddwyd y gweryll isaf ar 5000m lle cododd y tim labordai a bwerwyd gan yr haul a'r gwynt i ymchwilio i chwe phroject ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys 'ffynonellau straen a strategaethau ymdopi cysylltiedig wrth weithio ar uchder' a 'phrofi'r berthynas rhwng ffitrwydd a llwyddiant taith: a yw ffitrwydd uwch yn gysylltiedig â llai o salwch, mwy o fwynhad a pherfformiad gwell?'

Bu Sefydliad Astudiaethau Cystadlu a Chaffael **Ysgol y Gyfraith** gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn trefnu Gwobrau Caffael Cenedlaethol Cymru 2015 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Mae'r Gwobrau'n dathlu llwyddiannau yng Nghymru, ym meysydd Caffael Cyhoeddus, Cyflenwi a Thendro am Wasanaethau Cyhoeddus. Roedd y gwobrau'n dynodi diwedd yr Wythnos Caffael, sydd yn gynhadledd ryngwladol pum niwrnod, ac erbyn hyn yn un o'r cynadleddau caffael mwyaf yn y Deyrnas Unedig.



Mae Cwmni'r Brethynwyr yn un o Gwmnïau Lifrai hanesyddol Dinas Llundain, a bellach yn sefydliad dyngarol. Bob blwyddyn byddant yn ddigon caredig i roi dwy fedal i'w dyfarnu i fyfyrwyr ôl-radd nodedig. Dyfarnwyd medal arian Cwmni'r Brethynwyr i Stephen Clear sydd yn agosáu at gwblhau PhD ym maes caffael cyhoeddus ac adolygu barnwrol yn **Ysgol y Gyfraith**. Dyfarnwyd medal efydd Cwmni'r Brethynwyr i Louise Catherall. Cwblhaodd Claire PhD yn ddiweddar yn **Ysgol Gwyddorau'r Eigion**, ar Nodweddion Poblogaeth a Rhyngweithio Amgylcheddol Pysgodfa Cregyn Aberffro yn y Môr Udd.

Cyd-lofnodwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth Ffurfiol gan y Brifysgol a Siemens Healthcare Diagnostics. Bydd hyn yn eu galluogi i gydweithio'n agosach yn y dyfodol. Gyda diddordebau cyffredin, yn bennaf ym maes datblygu arbenigedd a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Gwyddorau Biolegol a Bywyd, ond hefyd â Pheirianneg, Busnes, Rheoli a Gwyddorau Cyfrifiannu, mae'r ddau sefydliad yn rhannu gweledigaeth debyg ar gyfer datblygu, bywiogi a rhoi egni i economi gogledd Cymru'n gyffredinol.

Cydnabuwyd y gwaith aruthrol a wneir gan **Undeb y Myfyrwyr** Bangor yn Seremoni Gwobrwyo Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru, lle llwyddasant i gyrraedd y rhestr fer mewn chwech o'r wyth categori ac ennill pedair o'r gwobrau, gan ddal eu gafael ar deitl 'Undeb Myfyrwyr y Flwyddyn' wrth wneud hyn. Fe wnaethant hefyd ennill gwobrau Amrywiaeth, Addysg a Chyfleoedd Myfyrwyr.

Mae gwyddonwyr yn **Ysgol Gwyddorau Eigion** wedi darparu'r wybodaeth wyddonol i gefnogi cyngor ynghylch rheoli pysgodfeydd i Lywodraeth Ynys Manaw, ers 2006, perthynas sydd i fod i bara tan 2020 ar ôl iddynt ennill contract am 5 mlynedd arall. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafwyd llwyddiant arloesol gan gynnwys dyfarnu ardystiad Cyngor Stiwardiaeth y Môr, i'r bysgodfa cregyn y frenhines. Mae Llywodraeth Ynys Manaw wedi mynd ati i ddefnyddio dulliau rheoli megis ardaloedd pysgodfeydd caeedig i wella a chynnal eu pysgodfeydd.

1 Stephen Clear (ar y chwith), Meistr Frethynwr, Nicholas Bence-Trower a Claire Catherall (ar y dde).



2 Osian Huw Williams, enillydd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.



3 Ffion Haf Williams, enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Enillwyd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru gan Osian Huw Williams, myfyriwr meistr yn yr **Ysgol Cerddoriaeth**. Cyflwynwyd y Tlws gan Urdd Cerddoriaeth Cymru, ynghyd â gwobr ariannol o £750 ac ysgoloriaeth gwerth £2,000 i hybu gyrfa gyfansoddi'r enillydd.

Enillodd Prifysgolion Bangor, Abertawe a Chaerdydd £2,249,927 o nawdd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i arwain Canolfan Genedlaethol Iechyd a Lles y Boblogaeth, Canolfan Ymchwil Cymru gyfan. Dan arweiniad yr Athro Jane Noyes o'r **Ysgol Gwyddorau Cymdeithas** ar y cyd â'r Athro Ronan Lyons, bydd y Ganolfan yn cydlynu ymchwil i iechyd y boblogaeth am y tro cyntaf yng Nghymru.

Enillwyd gwobr am y Tîm Llyfrgell Gorau gan Wasanaeth Llyfrgell ac Archifau'r brifysgol, ar y cyd â phartneriaid eraill yn Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru. Cyflwynwyd y wobwr yn Seremoni Wobrwyo Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Times Higher 2015. Mae aelodau'r fforwm yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, pob prifysgol yng Nghymru, llyfrgelloedd GIG Cymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Enillwyd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Fro gan Ffion Haf Williams, a raddiodd yn **Ysgol y Gymraeg**, am ddrama a luniwyd ganddi yn ystod ei thrydedd flwyddyn ym Mangor fel rhan o'i modiwl sgriptio.

Mae gwyddonwyr o Brifysgol Bangor wedi sicrhau 5 o'r 8 Clwstwr Ymchwil a ariannwyd trwy Rwydwaith Ymchwil Cenedlaethol Sêr Cymru i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd y Brifysgol yn derbyn £1.42M o incwm ymchwil. Mae amrywiaeth mawr o bynciau ymchwil: Defnydd tir amlswyddogaethol ac amaethyddiaeth gynaliadwy, ynni adnewyddadwy o'r môr, gwarchod y corsydd halen a gwydnwch yr arfordir a'r rhyngweithio rhwng planhigion a phensaernïaeth. Cynlluniau cydweithredu yw'r Clystyrau rhwng grwpiau ymchwil ym Mhrifysgolion Bangor, Aberystwyth, Caerdydd ac Abertawe, Canolfan Ecoleg a Hydroleg, Bangor, ac amryw o bartneriaid eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

YMCHWIL

YMCHWIL GYDA'R ORAU YN Y BYD

Cydnabu Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 fod mwy na thri chwarter o ymchwil Prifysgol Bangor naill ai gyda'r orau yn y byd neu'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Ar sail cyflwyniad y brifysgol mewn 14 uned asesu, cafodd 77% o'r ymchwil ei gosod yn y ddwy haen uchaf o ran ansawdd ymchwil, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ymysg holl brifysgolion y Deyrnas Unedig.

Mae ymchwil yn yr ysgolion Gwyddorau Cymdeithas; Cymraeg; Ieithoedd Modern; Addysg; Ieithyddiaeth; Gwyddorau Chwaraeon; Gwyddorau Eigion; Gwyddorau Biolegol; Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth; Seicoleg; Gwyddorau Gofal Iechyd a

Gwyddorau Meddygol wedi eu gosod yn yr 20 uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r ffeithiau canlynol yn tanlinellu enw da Prifysgol Bangor fel prifysgol ymchwil gyda'r orau yn y byd:

Gosodwyd Bangor y 39ain safle yn y DU (heb gyfrif sefydliadau arbenigol a phrifysgolion oedd yn cyflwyno mewn un Uned Asesu yn unig).

Cafodd 8 o'n 14 cyflwyniad sgôr GPA (sef mesur o ansawdd ymchwil) uwch na 3.0 allan o'r sgôr uchaf bosibl o 4.0. Meddai'r Athro David Shepherd, Dirprwy Is-ganghellor, sy'n gyfrifol am ymchwil: "Dyma berfformiad rhagorol

gan Fangor ac rydw i'n arbennig o falch o'r effaith fawr mae ein hymchwil yn ei chael ar draws y byd. O'r cyfraniad sylweddol a wnawn at wella gofal iechyd a lles, dwyieithrwydd ac amddiffyn yr amgylchedd, mae'n eglur bod yr ymchwil a wneir gan academyddion Bangor yn cael effaith economaidd sylweddol yn ogystal ag effaith ar fywydau pobl o gwmpas y byd.

"Rydw i'n falch hefyd ein bod wedi dyblu maint yr ymchwil 4* a gyflawnwyd ers cynnal y dadansoddiad diwethaf."



Y GWYDDELOD AC ALBANWYR CRISTNOGOL CYNNAR Y CYNTAF I DROEDIO GWLAD YR IÂ

Mae pobl Gwlad yr Iâ wedi credu ers amser maith mai Llychlynwyr oedd eu cyndeidiau, preswylwyr cyntaf yr ynys. Fodd bynnag, mae darganfyddiadau archeolegol newydd mewn ogofâu artiffisial yn Seljaland yn ne Gwlad yr Iâ, yn dangos bod yna weithgaredd dynol ar yr ynys bron i ganrif cyn yr anheddau Llychlynnaidd cynharaf.

Bu i'r Dr Kristján Ahronson o'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg, herio'r hanes cyffredin yn ei lyfr diweddaraf. Fe wnaeth Dr Ahronson ddyddio'r cyfnod yr adeiladwyd un o'r ogofâu hyn yn fanwl drwy ddadansoddi haenau o ludw folcanig. Yn ogystal, darganfu bod cerfiadau croes y tu mewn i ogofâu Seljaland yn hynod o debyg o ran arddull i'r rhai a ddarganfuwyd ar gyrion gogleddol a gorllewinol Prydain ac Iwerddon.


Eglura Dr Ahronson: "Mae hanes y 'seintiau' Celtaidd cynnar a'u gwaith yn lledaenu Cristnogaeth ar hyd yr arfordir gorllewinol wrth iddynt chwilio am fannau neilltuedig i ymsefydlu ynddynt yn

ddigon cyfarwydd. Rydym ni'n awr wedi dangos y gallent fod wedi teithio lawer pellach, cyn belled â Gwlad yr Iâ, wrth geisio manau gwyllt ac anghyfannedd i sefydlu eu cymunedau crefyddol. Yn sicr, byddai presenoldeb cymunedau o'r fath yng Ngwlad yr Iâ - cyn i Sgandinafiaid Oes y Llychlynwyr gyrraedd yno - yn egluro ein darganfyddiadau yn Seljaland.

"Mae'r ogofâu yn Seljaland ymysg tua 200 o safleoedd ogofâu artiffisial sydd i'w cael yn ne Gwlad yr Iâ. Fe wnaethom gofnodi dros 100 o groesau syml a 24 o enghreifftiau o rai wedi eu cerfio'n fwy cywrain yno.

Mae'r croesau hyn yn hynod debyg o ran eu harddull i gerflunwaith o'r oesoedd canol cynnar a geir yng Ngorllewin Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban, megis yr hyn a geir ym mynachlog ganoloesol gynnar bwysig Iona yn Argyll, yn ogystal â lleoliadau mwy anghysbell cymunedau Cristnogol cynnar yn yr Alban."

Darluniau gan Ian G Scott o groesau o Seljalandshellar a Kverkarhellir
© Kristján Ahronson



PROFI DULLIAU I ATHRAWON

Mae 'bocs offer' o strategaethau i athrawon i geisio rhwystro datblygiad cynnar ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu sgiliau cymdeithasol-emosiynol plant ifanc yn cael ei gyflwyno a'i brofi mewn astudiaeth bedair blynedd yn Kingston, prifddinas Jamaica.

Mae'r 'Irie classroom Toolbox' yn hyfforddi athrawon i ddefnyddio strategaethau rheoli ymddygiad allweddol sy'n berthnasol, hawdd i'w defnyddio, effeithiol a hyblyg. Yn ystod yr astudiaeth bydd 76 o ysgolion meithrin a thros 6,000 o blant 3 i 6 oed yn ei ddefnyddio.

Chwith: Athrawes yn dysgu sgiliau cyfeillgarwch i blentyn 3 oed wrth iddynt chwarae gyda blociau.

Arweinir yr ymchwil gan Dr Helen Henningham yn yr Ysgol Seicoleg, ar y cyd gyda'r Tropical Medicine Research Institute yn yr University of the West Indies, Jamaica. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio'n benodol i fod yn gymharol rad ac addas i'w ddefnyddio mewn manau lle nad oes llawer o adnoddau.

Eglurodd Dr Henningham fel hyn: "Ledled y byd mae trais yn broblem fawr mewn ieuchyd cyhoeddus. Mae ymyriadau i atal hyn yn gynnar mewn plentynod yn bwysig i fynd i'r afael â'r broblem. Mae ein gwaith cynnar wedi dangos bod athrawon meithrin yn Jamaica sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio strategaethau rheoli ymddygiad plant sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn

medru ymdrin â'u disgyblion yn well yn emosiynol drwy ymresymu â hwy a defnyddio llai o gosbi corfforol. Mae hyn yn arwain at leihad mewn camymddwyn a phroblemau peryglus ymysg plant ac yn cynyddu eu sgiliau cymdeithasol yn yr ysgol a gartref. Drwy ddefnyddio'r dulliau hyn gwelwyd llai o ymddygiad treisgar ac aflonyddu yn y dosbarth gyda'r plant yn dangos mwy o ddiddordeb a brwdfrydedd mewn gweithgareddau dysgu."

Mae'r astudiaeth yn mynd i gostio £1,453,703 i gyd ac fe'i cyllidir gan y Cyngor Ymchwil Meddygol, y Wellcome Trust ac Adran Datblygu Rhyngwladol llywodraeth y Deyrnas Unedig.

YMARFER CORFF I GADW'N IACH

Mae rasys marathon a rasys dygnwch yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ac felly hefyd yr awch am ymarfer yn ddwys, megis mewn dulliau a dosbarthiadau hyfforddi dwys 'spike' neu 'buzz'. Ond p'un fydd yn achosi'r niwed lleiaf i'ch system imiwnedd?

Mae ymchwil gan Yr Athro Neil Walsh a'i dîm yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn herio'r meddylfryd cyfredol fod ymarferion hwy, llai straenus yn llai niweidiol i'r system imiwnedd.

Mae eu canfyddiadau newydd yn dangos nad yw hanner awr o ymarfer corff dwys iawn yn effeithio ar ymateb y system imiwn, ond bod ymarfer corff mwy hirhoedlog a chymedrol yn gostwng imiwnedd.

Cynhaliwyd yr ymchwil am y tro cyntaf gan ddefnyddio pobl go-iawn, yn hytrach na thiwbiau profi, celloedd neu arbrofion 'labordy', a chan fesur ymateb imiwn

gwirioneddol y corff i brofion patshys croen a ddefnyddiwyd ar ôl amseroedd a dwyseddau gwahanol o ymarfer, ac mae'r canlyniadau'n awgrymu'n glir y bydd cyfnodau hir o ymarfer cymedrol yn lleihau gallu eich system imiwn - fel y byddwch yn debycach o ddirodded gan unrhyw germau a allai fod o gwmpas i fanteisio ar y gwendid. Fodd bynnag, cafwyd nad oedd ymarferion byr a dwys yn cael effaith arwyddocaol ar system imiwn y corff.

Yn ôl yr Athro Walsh: "Mae ein canfyddiadau, mewn gwirionedd, yn gyson â'r meddylfryd cyfredol ynglŷn â hyfforddiant dygnwch, sydd hefyd yn awgrymu bod sesiynau dwys, cymharol fyr o ymarfer yn bwysig o ran gwella perfformiad. Felly nid yw'n anghyson â rhaglen hyfforddi dygnwch optimaidd ar gyfer athletwyr."



Mae rhai o greaduriaid mwyaf mawreddog y blaned, fel eliffant Affrica, mewn perygl difrifol o ddiflannu o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau pobl.



Jo Hacking, Swyddog Project Ymchwil, yn profi samplau am TB.



© Gina Hayward

GALL DIRYWIAD MEWN BYWYD GWYLLT ARWAIN AT 'DIRWEDD WAG'

Mae dirywiad mewn niferoedd rhai o lysysyddion mawr y byd, gan arwain at bryder o 'dirwedd wag', yn arbennig yn Affrica a rhannau o Asia.

Mae anifeiliaid fel rhinoserosiaid, eliffantod a gorilaod, mewn perygl o fod ar eu ffordd i ddifodiant, yn ôl ymchwil a arweinir gan Oregon State University. Roedd dadansoddiad o 74 o rywogaethau llysusyddion, a gyhoeddwyd yn Science Advances, yn rhoi bai ar botsio a cholli cynefinoedd. Bu i astudiaeth flaenorol o gigysyddion mawr ddangos dirywiad tebyg, ond hwn oedd y tro cyntaf i lysusyddion dros 100kg gael eu dadansoddi.

Mae'r broses hon o nifer yr anifeiliaid yn dirywio yn achosi tirwedd wag yn y goedwig, safana, glaswelltir a'r anialwch.

Bu i Dr Matt Hayward o Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth a'r Ysgol Gwyddorau Biolegol, weithio fel rhan o dîm o 15 o wyddonwyr rhyngwladol. Ei gyfraniad oedd nodi bygythiadau i lysusyddion

mawr a rhoddodd enghreifftiau o rywogaethau yr effeithiwyd arnynt. Mae'n egluro fel a ganlyn: "Mae 25 o'r llysusyddion gwyllt mwyaf yn meddiannu cyfartaledd o ddim ond 19% o'u hamrediadau hanesyddol. Mae cystadleuaeth o gynhyrchu da byw, sydd wedi treblu'n fyd-eang er 1980, wedi gostwng mynediad llysusyddion at dir, porthiant a dŵr, ac wedi cynyddu peryglon trosglwyddo afiechydon."

Mae canlyniadau'r cyfryw ddirywiad yn cynnwys yr effeithiau ar y gadwyn fwyd, lle mae ysglyfaethwyr mawr fel llewod, llewpardiaid, ac udfilod yn dibynnu ar lysusyddion mawr am fwyd. Byddai hyn yn effeithio ar bobl hefyd, gan fod amcangyfrif o un biliwn o bobl yn dibynnu ar gig gwyllt i fyw arno, tra bydd colli llysusyddion eiconig yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o lysusyddion mawr yn Ewrop a Gogledd America eisoes wedi diflannu.

PROFION TB CYFLYM I ACHUB BYWYD

Mae twbercwlosis yn parhau i ledaenu ar gyfraddau brawychus, gyda 9.6 miliwn o bobl yn mynd yn sâl gyda TB yn 2014. Mae yn yr un safle â HIV fel un o brif achosion marwolaeth ledled y byd, ac mae pobl sy'n byw gyda HIV mewn llawer iawn mwy o berygl o ddatblygu TB. Yn 2014, bu i draean o'r 1.2 miliwn marwolaeth o ganlyniad i HIV gael eu hachosi gan gydheintiad gyda TB.

Gyda lledaeniad ymwrthedd i gyffuriau, a'r diffyg cyffuriau newydd, mae cael diagnosis cynnar o TB yn dod yn bwysicach byth. Mae dulliau microsgopeg

poer a chelloedd meithrin, a ddatblygwyd ddegawdau yn ôl, yn parhau i fod y profion diagnostig TB ddefnyddir fwyaf cyffredin, yn enwedig yn y byd sy'n datblygu. Mae hyn oherwydd bod llawer o brofion newydd naill ai'n gostus, ddim yn addas i'w defnyddio ar gyfer pwynt gofal, neu'n rhy araf.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi'r angen am ddiagnosteg gyflym newydd, ac mae ymchwil a arweinir gan Dr Chris Gwenin a'r Athro Mark Baird o'r Ysgol Cemeg, wedi arwain at brawf llif cyflym sy'n rhoi canlyniadau gwaledol

Profi llif TB; mae'r sglodyn chwith yn profi'n positif am TB a'r sglodyn de yn profi'n negatif am TB.

o fewn 15 munud. Mae'r prawf TB lipid patent hwn yn addas i'w ddefnyddio ar bwynt gofal, mae'n costio llai na \$10, a gall ffôn symudol ei ddarllen hefyd.

Er mwyn ceisio rhoi'r cyfle gorau i'r dechnoleg hon o gael ei derbyn ar bwynt gofal, sefydlwyd Diagnostig Cyf, fel cwmni'n deillio o'r Brifysgol ym mis Rhagfyr 2014. Y nod yw darparu llwybr i ddilysu rhyngwladol, cymeradwyo rheoliadol a chynhyrchu dyfais yn fasnachol sy'n fforddiadwy i boblogaethau TB sy'n llawer o faich.





DYSGU AC ADDYSGU

MYFYRWYR BODLON IAWN

Mae'r Brifysgol yn parhau i fod y gorau yng Nghymru, ac mae yn y 10 uchaf o brifysgolion anarbenigol gorau'r DU, yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.

Mae'n arolwg o oddeutu hanner miliwn o fyfyrwyr sy'n graddio o bob prifysgol yn y DU, ac mae'n rhoi'r adborth mwyaf cynhwysfawr am brofiad myfyrwyr ym mhob sefydliad.

Meddai'r Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu): "Yn ogystal â'i hanes hir o ragoriaeth academiaidd, mae gan Brifysgol Bangor enw da am ddarparu addysgu rhagorol a gofal i fyfyrwyr a chaiff hyn ei gadarnhau gan y canlyniadau gwych hyn. Rydym wedi llwyddo i gyflwyno mentrau i roi llais cryfach i fyfyrwyr yn y Brifysgol, ac mae'r canlyniadau gwych hyn yn adlewyrchu hynny.

"Mae'n amlwg fod lle i ddathlu'r ffaith fod bron i chwarter ein pynciau gradd â chanran boddhad o 100%, ac felly hefyd ein sgôr boddhad cyffredinol o 91%, sy'n ein gosod ni'n gyfartal â Phrifysgol Rhydychen, ac ar safle uwch na phob un arall o sefydliadau Grŵp Russell."

Mae Bangor ar frig tablau'r DU mewn chwe phwnc, yn ôl adborth a gafwyd oddi wrth raddedigion, ac ar y brig yng Nghymru mewn 12 o bynciau eraill. Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn y 10 uchaf o brifysgolion y DU am 19 o'r 39 o feysydd pwnc a ddysgir yn y Brifysgol.

Ychwanegodd yr Athro Turnbull: "Mae'r data yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ddarpar-fyfyrwyr, ac yn adlewyrchu ein harbenigedd mewn addysgu, yr ydym yn ddiweddar wedi ennill Gwobr Academi Addysg Uwch amdano, fel y gallwn rannu ein harferion gorau â sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU."

ACHREDIAD I DDYFARNU CYMRODORIAETHAU'R ACADEMI ADDYSG UWCH

Mae Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus llwyddiannus y Brifysgol wedi cael ei achredu gan yr Academi Addysg Uwch.

Datblygwyd y cynllun ar y cyd ag Aberystwyth fel un o nifer o brojectau Cynghrair Strategol Aber-Bangor. Roedd yn ffurfio elfen gwobrwyo a chynabod Strategaeth Addysgu a Dysgu ac Ehangu Mynediad Aber-Bangor. Dyma'r tro cyntaf i gynllun ar y cyd gan ddwy brifysgol annibynnol cyn-92 yn y DU gael ei achredu.

Mae'r achredu yn golygu y gall y brifysgol ddyfarnu ei Chymrodoriaethau Academi Addysg Uwch ei hun ar draws holl categorïau Safonau Proffesiynol y DU ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch: o Uwch Gymrawd i Brif



Gymrawd. Mae'r Cymrodoriaethau yn llwybr datblygiad proffesiynol parhaus at gael cymhwyster dysgu cydnabyddedig mewn addysg uwch. Bydd y llwybr mewnol hwn yn gwella'n fawr gallu'r brifysgol i gynyddu canran ei staff sydd â chymhwyster dysgu cydnabyddedig,

cyn bod y cyrff cyllido yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddata HESA yn ôl y mesur hwn gael ei gyhoeddi ar lefel sefydliadol o fewn tair blynedd.

Arweiniwyd y datblygiad ym Mangor gan Dr Sue Clayton yn y Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu. Mae ar hyn o bryd yn cyflwyno sesiynau cynefino misol i staff cymwys er mwyn dechrau'r broses gydnabod, ynghyd â chynnal uwch hyfforddiant i Gronfa o adolygwyr a fydd yn asesu ceisiadau ar draws y ddau sefydliad.

Meddai Dr Clayton: "Mae'n golygu manteision sylweddol i fetrigau'r brifysgol, ac mae hefyd yn golygu y gall academyddion profiadol ar draws bob pwnc siarad â'u cydweithwyr am eu haddysgu da."

FFUG LYS BARN NEWYDD YM MHRIFYSGOL BANGOR

Buddsoddodd y Brifysgol mewn gosod ffug lys barn newydd sy'n cynnwys y ddarpariaeth a'r offer diweddaraf. Mae hyn yn cadarnhau ymhellach safle Bangor fel Ysgol y Gyfraith flaengar ymysg prifysgolion y DU, gan bwysleisio cyflogadwyedd a datblygiad sgiliau myfyrwyr fel elfen graidd o'i chwricwlwm gradd LLB yn y Gyfraith.

Agorwyd y ffug lys yn swyddogol gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Arglwydd Thomas o Gwmgŷedd, a chanmolodd holl gyflawniadau Ysgol y Gyfraith Bangor yn ystod y degawd ers iddi gael ei sefydlu yn 2004. Pwysleisiodd ei bod yn eithriadol bwysig i fyfyrwyr feithrin sgiliau eiriol a dadlau fel ffordd o baratoi at yrfa yn y gyfraith.

Mae cynnal ffug achosion o'r fath eisoes yn weithgaredd pwysig ym Mangor. Yn 2014 yn unig cynhaliodd Ysgol y Gyfraith wyth o gystadlaethau mewnol a chystadlu mewn pump o gystadlaethau allanol. Un o'r cystadlaethau allanol hynny oedd Cystadleuaeth Genedlaethol Gymreig LexisNexis, lle llwyddodd



O'r chwith: Dermot Cahill (Pennaeth Ysgol y Gyfraith), yr Arglwydd Brif Ustus a Stephen Clear (Ysgol y Gyfraith) yn y ffug lys barn newydd.

Bangor i gipio'r wobwr gyntaf. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gwneud enw iddi'i hun ym maes ffug lysoedd barn yn Ewrop. Hwyoedd yr Ysgol y Gyfraith gyntaf erioed o Gymru i gystadlu yn Ffug Lys Barn Ryngwladol Telders yn 2013.

Meddai'r Athro Dermot Cahill, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Bangor: "Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Ysgol y

Gyfraith ym Mangor wedi dangos yn amlwg ei sgiliau ym maes ffug lysoedd. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn gan y Brifysgol yn gwella siawns myfyrwyr y gyfraith o gael swydd, dod â mwy o gystadlaethau allanol i Fangor, a gwella ansawdd yr adnoddau dysgu i'r modiwlau Sgiliau Cyfreithiol a Ffug Dadleuon Llys, a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

RHYNGWLADOLI



GRADDEDIGION CYNTAF CARFAN MBA RITS-BANGOR

Bu i dri deg pedwar o fyfyrwyr MBA balch o Sefydliad Ymchwil Prifysgol Tsinghua yn Shenzhen (RITS), cangen o Brifysgol Tsinghua, sydd ar y brig yn Tsieina, dderbyn eu gradd MBA ym Mhrifysgol Bangor yn ystod seremonïau graddio 2015. Mae hyn yn dilyn dwy flynedd o astudiaethau rhan-amser ar y rhaglen MBA a ddilysir gan RITS-Bangor. Roedd y 34 a ddaeth i'r seremoni ym Mangor ymhlith dros 100 o fyfyrwyr a oedd y cyntaf i raddio yn dilyn dilysu'r rhaglen yn llwyddiannus yn Hydref 2012 yng nghanolfannau Shenzhen a Shanghai RITS.

Meddai Ms Luo Wei, Dirprwy Gyfarwyddwr RITS: "Rydym ni wrth ein bodd gyda'r cynnydd mae ein myfyrwyr wedi ei wneud ar y rhaglen dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn falch o hynny. Mae'r myfyrwyr wedi gweithio'n galed i gyflawni'r canlyniad nodedig hwn heddiw. Mae gan bron pob un o'n myfyrwyr swydd brysur, ac mae rhai yn rhedeg busnesau llwyddiannus iawn hyd yn oed. Nid yw

jygly rhwng astudiaethau, gwaith a theulu byth yn hawdd, ond gyda chefnogaeth staff RITS a Phrifysgol Bangor, maent wedi dangos bod trefniant y rhaglen MBA ran-amser a ddilyswyd wedi gweithio."

Meddai'r Athro John G Hughes, Is-ganghellor, Prifysgol Bangor: "Rydym ni'n gwerthfawrogi'r bartneriaeth strategol gyda RITS, ac wedi ymrwymo i lwyddiant y project. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr MBA yn entrepreneuriaid ifainc yn y dinasoedd yn Tsieina sydd wedi datblygu fwyaf yn economaidd. Bydd cael y myfyrwyr hynny ymhlith cymuned alumni Prifysgol Bangor nid yn unig yn cyfrannu at amrywiaeth o fewn y sefydliad, ond bydd hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer mwy o gysylltiadau busnes i'r Brifysgol a rhanbarth Gogledd Cymru."

Myfyrwyr o Sefydliad Ymchwil Prifysgol Tsinghua yn Shenzhen (RITS) ym Mangor ar gyfer eu seremoni raddio.

PARTNERIAETHAU RHYNGWLADOL

Mae'r Brifysgol a'r Emirates Institute of Banking and Financial Studies (EIBFS) wedi sefydlu perthynas gydweithredol strategol yng nghyswllt ffurfio llwybrau, cydweithio ar ymchwil a dilysu rhaglenni. Mae EIBFS wedi'i leoli yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, ac mae'n ganolfan ragoriaeth mewn astudiaethau bancio a chyllid a sefydlwyd ers tro. Gan weithio gydag Ysgol Busnes Bangor, mae EIBFS yn gobeithio ehangu ei darpariaeth academiaidd ymhellach i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf, ac annog ymchwil arloesol o ansawdd uchel ymhlith ei chyfadranau.

Datblygiad arall fu croesawu'r Athro Olga Leontovich i Sefydliad Confucius y Brifysgol ym Mangor. Mae'n Bennaeth Adran Cyfathrebu Rhyngddiwyllyannol a Chyfieithu Prifysgol Addysgeg Talaith Volgograd (VSPU), y brifysgol hyfforddi athrawon fwyaf yn ne Rwsia. Nododd hyn ddechrau cydweithrediad cryf rhwng y

ddwy brifysgol, ac mae'r bartneriaeth hon yn bwriadu ymchwilio i faterion yn ymwneud â chyfathrebu ac arferion rhyngddiwyllyannol ym Mhrydain, Rwsia a Tsieina mewn perthynas â natur fyd-eang gynyddol y Sefydliad Confucius.

Yn Uganda, mae Prifysgol Bangor a Phrifysgol Makerere, un o'r prifysgolion hynaf yn Affrica, sy'n denu 40,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn, wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer ymchwil ac arloesi ar y cyd yn ymwneud yn benodol â Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r bartneriaeth hon eisoes wedi denu cyllid ar gyfer Lab Cynaliadwyedd Bangor, drwy Hub Cymru Africa, gyda chynigion datblygu eraill o bwys ar y ffordd. Bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth hefyd yn dod â chyfleoedd i fentrau bychain a chanolig Cymru a mentrau cymdeithasol ddilyn cyfleoedd datblygu cynaliadwy yn Affrica.



Dr Einir Young, Dr Graham Ormondroyd a Jalia Packwood o Brifysgol Bangor yn cwrdd â chynrychiolwyr o glwstwr busnes Makerere Pineapple i drafod project ymchwil ar y cyd.

CYDWEITHIO Â DE DDWYRAIN ASIA

Bu i ymchwilwyr yn Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth (SENRYG) sicrhau dau grant sylweddol, sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer ymchwil gydweithredol yn ne-ddwyrain Asia. Fe wnaeth Yr Athro Morag McDonald, Dr Graham Bird a Dr Paula Roberts, ar y cyd â chydweithwyr yn Indonesia, Prydain a'r Unol Daleithiau, lwyddo i gael cyllid gan y Global Innovation Initiative (GII) ar gyfer eu project: Sefydlu rhwydwaith o ragoriaeth ymchwil mewn adfer cloddfeydd yn ne-ddwyrain Asia.

Rhaglen ar y cyd rhwng y DU-UDA yw'r GIi i feithrin cydweithio mewn ymchwil gyda sefydliadau addysg uwch ym Mrasil, Tsieina, India ac Indonesia. Mae'r grant GIi o bron £150,000 tuag at gyfanswm costau'r project o £420,000 yn un o wyth a ddyfarnwyd i bartneriaethau a arweinir gan sefydliadau o'r DU gan y Cyngor Prydeinig a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

Bydd y project yn canolbwyntio ar y sialensiau a'r cyfleoedd a wynebwr wrth



Dr Bill Perkins, Prifysgol Aberystwyth; Yr Athro Gerry Miller, University of West Carolina; Dr Irdika Mansur, Seameo Biotrop (Indonesia), Yr Athro Morag McDonald a Dr Graham Bird, Prifysgol Bangor a Dr Tri Soeprobowati, Prifysgol Diponegoro yn mynd i'r afael ag adfer safle pwll glo.

geisio adfer safleoedd mwyngloddio. Gwneir y gwaith mewn partneriaeth â chwmni cloddio glo sy'n eiddo i lywodraeth Indonesia, PT Bukit Asam a Western Carolina University yn America; sefydliadau yn Indonesia sef Bogor Agricultural University, Bandung Institute of Technology, Universitas Diponegoro, Universitas Brawijaya, Southeast Asian Region for Tropical Biology, a Phrifysgol Aberystwyth. Indonesia yw'r pedwerydd

gynhyrchydd glo mwyaf yn y byd ac mae gan y wlad adnoddau helaeth iawn hefyd o fwynau pwysig eraill.

Fel y nododd yr Athro McDonald: "Bydd y project yn ein galluogi i wneud ymchwil o ansawdd uchel ym meysydd ansawdd dŵr ac adfer tir, gan gyfnewid gwybodaeth, staff a myfyrwyr gyda sefydliadau eraill y bartneriaeth yr un pryd."



CYFRWNG CYMRAEG

hAPpus I DDYSGU CYMRAEG!

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru wedi datblygu dau ap rhyngweithiol i ddysgwyr Cymraeg ar lefel ddechreuol. Fe wnaethant greu'r aps difyr, cynhwysfawr a hawdd eu defnyddio i helpu dysgwyr Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddsbarth.

Mae'r aps yn cynnwys nifer o dempledi rhyngweithiol sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae'r templedi hyn yn cynnwys posau chwilio am eiriau, recordiadau llais, tasgau gwranddo, cwestiynau aml ddewis a gwahanol dempledi eraill.

Lansiwyd y ddau ap ar y gyfres deledu Cariad@laith ar S4C, cyfres a noddwyd gan Lywodraeth Cymru. Treuliodd wyth o ffigurau amlwg rai dyddiau'n cael eu trochi yn y Gymraeg gyda'r nod i un gael ei goroni'n bencampwr Cariad@laith 2015. Meddai Nia Parry, cyflwynydd y rhaglen a thiwtor Cymraeg profiadol:


"Mae'r aps newydd yma'n adnodd dysgu gwyb, mae fel cael tiwtor Cymraeg yn

eich piced. Gellwch ei ddefnyddio pan ydych ar fws neu drên neu'n ymlacio yn yr ardd! Mae'n ffordd dda i ymarfer ychydig yn aml."

Mae Canolfan Addysg Oedolion Gogledd Cymru'n falch o fod wedi buddsoddi mewn ap arall hefyd, y tro hwn un i ddysgwyr ar lefel Ganolradd. Gobeithia'r ganolfan gael y lefel hon yn barod at ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Meddai Haydn Hughes, dirprwy gyfarwyddwr y ganolfan:

"Rydym yn falch o'r buddsoddiad yma a'r ffaith y byddwn yn gallu darparu aps Cymraeg ar gyfer pob un o'r tair lefel. Mae'n rhaid i ni fuddsoddi mewn adnoddau digidol i ddysgwyr Cymraeg, a sicrhau llwyfan rhyngwladol i'n hiaith, gan ddarparu adnoddau sy'n gyfredol ac addas i'r ffordd ddigidol o fyw heddiw."

O'r chwith: Y ffigurau Cymreig amlwg a gymerodd ran yn Cariad@laith pan lansiwyd yr aps, Derek Brockway, Chris Corcoran, Rebecca Keatley, Caroline Sheen, Jamie Baulch a Tom Shanklin.



GWNEUD GWAHANIAETH MEWN GOFAL IECHYD YN YR IAITH GYMRAEG

Yng Nghynhadledd y Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, derbyniodd y Brifysgol ddwy wobwr am ei gwaith arloesol i ymestyn a gwella defnydd o'r iaith Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth y gwobrau godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig wrth ddelio â chleifion, eu teuluoedd a'r cyhoedd.

Enillwyd y wobwr gyntaf gan yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd am ei chynllun arloesol i annog defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal iechyd, ac mae chwe myfyriwr yn rhai cyntaf i ddod yn Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg. Byddant yn gallu annog eu cyfoedion i ddefnyddio'r Gymraeg a nodi ac annog datblygiadau newydd yn y Gymraeg trwy gydol eu gyrfaeoddi i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Cafodd y project hwn ei ariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Rhoddyd yr ail wobwr am waith cyfieithu ac addasu pecyn cymorth



Yn cael eu llongyfarch gan un o feirniaid y panel, Dr Dai Samuel, gwelir y myfyrrwyr nyrsgio a Hyrwyddwyr Iaith: Elin Roberts, Elin Bryfdir Jones, Hannah Ward, Bethan Edwards a Mared Parry.

asesu gwybyddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'r pecyn yn golygu y gellir yn awr asesu siaradwyr Cymraeg, sydd â dementia, drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gweld beth yw eu hanghenion a chynllunio'r gofal gorau iddynt.

Noddyd y gwaith hwn gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r project yn rhan o raglen waith ehangach a gyflawnir

yn Sefydliad Hap-dreialon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru gan y Grŵp Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith, sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymchwil i iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru er mwyn darparu ar gyfer anghenion siaradwyr dwyieithog.

FFAIR SWYDDI CYMREIG

Cynhaliodd y Brifysgol ei Ffair Swyddi Cymreig gyntaf. Fel prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, mae'r Brifysgol yn rhoi sgiliau i fyfyrwyr gyflawni ystod eang o swyddi sydd angen medrusrwydd yn y Gymraeg.

Daeth tua 30 o gyflogwyr i'r ffair - o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn lleol a rhyngwladol. Bu eu cynrychiolwyr yn trafod sgiliau Cymraeg y myfyrwyr gyda hwy gan egluro eu perthnasedd i fyd gwaith.

Meddai'r Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-ganghellor dros gyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Gymuned: "Mae'r Ffair Swyddi Cymreig hon yn pwysleisio ymroddiad Prifysgol Bangor i ddatblygu gweithlu sy'n gallu ymateb i anghenion marchnad lafur Gymraeg ei hiaith.

"Rydym yn awyddus i'n myfyrwyr ddeall



Y Ffair Swyddi Cymreig yn Neuadd Powis.

yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael iddynt fel siaradwyr Cymraeg ac fel myfyrwyr sydd wedi astudio drwy'r Gymraeg."

Meddai Alaw Griffith, Swyddog Iaith Gymraeg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

"Roedd yn bleser mawr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod yn rhan o'r Ffair Swyddi Cymreig. Roedd yn gyfle i ni siarad â'r myfyrwyr a phwysleisio pwysigrwydd cael sgiliau iaith Gymraeg

wrth wneud cais am swydd o fewn y gwasanaeth iechyd. Mae gallu darparu gwasanaethau i gleifion yn eu hiaith gyntaf yn hynod bwysig ac rydym yn aml yn gofyn am sgiliau yn y Gymraeg wrth recriwtio i rai swyddi."

Menter ar y cyd oedd y Ffair rhwng Undeb y Myfyrwyr Cymraeg yn y Brifysgol, Canolfan Bedwyr a Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol.



CYMUNED

CYTUNDEB PARTNERIAETH ALLWEDDOL

Bydd cartref Clwb Pêl-droed Dinas Bangor yn cael ei ail enwi yn Stadiwm Prifysgol Bangor wedi cytundeb rhwng y Clwb a'r Brifysgol. Prifysgol Bangor fydd y partner gyda hawliau enwi, fel rhan o gytundeb tair blynedd, yr ail newid enwers i'r Clwb symud i'w gartref newydd yn 2012.

Meddai Cadeirydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, Dilwyn Jones: "Rydym yn gweld hyn fel cyfle cyffrous ac yn bartneriaeth i'r Clwb, i Brifysgol Bangor, y ddinas a'n cefnogwyr.

"Nod y cydweithio yw sefydlu cynladwyedd a datblygiad drwy rannu sgiliau ac adnoddau. Mae'r cyfle i ddatblygu perthynas gyda myfyrwyr a staff sy'n dod â dimensiwn ychwanegol i ddatblygiad chwaraewyr a busnes i'r clwb yn un llawn cyffro."

Bydd y bartneriaeth newydd yn gweld y Brifysgol yn ymwneud â'r clwb pêl-droed mewn sawl ffordd wahanol.

Meddai Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon:

"Mae hyn yn gychwyn ar bartneriaeth gyffrous gyda Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, ac yn rhywbeth a fydd yn dod â budd i'r Clwb, i'r Brifysgol ac i'r gymuned leol. Drwy nifer o leoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli, byddwn yn cynorthwyo'r Clwb wrth ddatblygu eu rhaglenni ieuencid yn ogystal â rhoi sgiliau cyflogadwyedd mewn meysydd fel rheoli cyfleusterau, cyfryngau a hyfforddi i'n myfyrwyr."

Ethan Ray (Rheolwr Cymuned CPDDB), Yr Athro Carol Tully, Dirprwy Is-Ganghellor, Yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor, Dilwyn Jones (Cadeirydd CPDDB), Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon a Peter Crew

Y SIOP BWYDYDD HYLL YN LLWYDDIANT

Bu i dim mentrus o fyfyrwyr agor siop sbonoc llwyddiannus mewn canolfan siopa ym Mangor. Gwerthodd y tîm ffrwythau a llysiau 'hyll' a wrthodir gan archfarchnadoedd oherwydd eu maint neu ymddangosiad afreolaidd, ond sydd yn holliach a maethlon fel arall. Rhoddodd y siop bwydydd hyll gyfle i gwsmeriaid achub y ffrwythau a'r llysiau hyn rhag cael eu taflu i'r domen sbwriel a'u prynu'n rhatach nag y gallent eu cael gan werthwyr arferol.

Rhoddodd y siop hwb newydd i Ganolfan Siopa Deiniol ym Mangor, yn ogystal â galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau menter a chyflogadwyedd allweddol.

Meddai Gwyn Hughes, Clerc Cyngor Dinas Bangor: "Fel rhan o'n menter barhaus i adfywio'r Stryd Fawr, rydym yn hynod falch o weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar syniadau arloesol i gynnig rhywbeth gwahanol i siopwyr yng nghanol dref."

Meddai Dan Taylor, myfyriwr MRes o'r Ysgol Seicoleg a reolodd y siop: "Mae'r siop bwydydd hyll wedi dysgu'r potensial i mi o ddod yn entrepreneur yn y dyfodol. Rydw i wedi dysgu gymaint drwy gydol y broses, o allu creu busnes o syniad cychwynnol i'w weithredu mewn gwirionedd a bod yn gyfrifol am staff. Bu'n brofiad gwerth chweil ac yn wych gallu cymryd rhan mewn menter sy'n ymddangos iddo allu diwallu galw yn y gymuned."

Cydlynwyd y fenter hon gan y tîm Byddwch Fentrus ac fe'i cyllidwyd gan Lywodraeth Cymru.

Y siop Bwydydd Hyll yng Nghanolfan Siopa Deiniol ym Mangor.



DATBLYGIADAU'R PARC GWYDDONIAETH

Bu hi'n flwyddyn o weithgarwch di-baid i'r tîm sy'n datblygu prosiect M-SParc, sef Parc Gwyddoniaeth Menai. Erbyn hyn, sicrhawyd caniatâd cynllunio amlinellol i'r safle 20 acer yn y Gaerwen ar Ynys Môn, a phenodwyd cwmni o benseiri Faulkner Brown i ddylunio'r adeilad cyntaf. Yn ogystal, bu'r tîm wrthi'n brysur yn cwblhau'r cais i Gronfeydd Strwythurol Ewrop i sicrhau gweddill y cyllid angenrheidiol ar gyfer rhan gyntaf y datblygiad.

Y bwriad ydi sicrhau cartref i gwmnïau a phrojectau ymchwil arloesol sy'n agos i'r farchnad. Yn y dyddiau cynnar bydd y parc yn canolbwyntio ar y sectorau ynni carbon isel a'r amgylchedd a thechnoleg gwybodaeth. Ar hyn o bryd mae'r parc mewn trafodaethau gyda nifer o denantiaid posib yn y sectorau yma, a rhai ohonynt yn denantiaid angor sylweddol o dramor. Rhydd hyn gyfle i

ddefnyddio arbenigedd ymchwil Prifysgol Bangor gan arwain at gyfleon gwaith i raddedigion.

Bydd y gwaith o farchnata'r parc yn cynyddu wrth i'r gwaith ar y rhan gyntaf o'r datblygiad fynd rhagddo. Lanswyd gwefan y parc www.m-sparc.com yn ystod Sioe Môn yn 2015. Bydd y wefan yn gyfrwng i fusnesau a phrosiectau dderbyn gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf a sut y gallant elwa o'r fenter. Mae'r penderfyniad i gynnwys safle'r Parc oddi mewn i Barth Menter Ynys Môn yn hwb sylweddol, gan y bydd hi'n haws inni ei farchnata yn ogystal â chynnig manteision trethiannol a chymorth i fuddsoddi mewn mentrau newydd.

Delwedd artistig o Barc Gwyddoniaeth Menai.





PONTIO YN DECHRAU AGOR

Tra bo'r gwaith ar Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio wedi bod yn agosáu at y terfyn, mae ystod eang o weithgareddau wedi bod yn digwydd cyn yr agoriad llawn.

Mae Arloesi eisoes wedi bod yn rhan o nifer o broiectau cydweithredol rhyngwladol sydd wedi arwain at bethau newydd yn cael eu cynhyrchu ac yn cyrraedd y farchnad.

Cynhaliwyd digwyddiadau arloesi yn ymwneud â myfyrwyr, busnesau lleol a chenedlaethol, a chafwyd cydweithio hefyd â sefydliadau fel Prifysgol Bern, Prifysgol Stanford a'r Coleg Celf Brenhinol.

Gosodwyd offer newydd gwerth bron i £1 miliwn a chaiff ei ddefnyddio i gynorthwyo myfyrwyr, staff, busnesau a'r cyhoedd i arloesi ac archwilio syniadau newydd a datblygu cynnyrch newydd. Mae Pontio bellach wedi cofrestru'n ffurfiol

fel FabLAB, ac mae'n rhan o rwydwaith rhyngwladol o ofodau i wneuthurwyr sydd wedi eu cysylltu'n ddigidol.

Daeth rhaglen 'Pontio ar y Lôn' Gwanwyn 2015 ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau celfyddydol i'r ardal gan gynnwys ffilm a chomedi, cerddoriaeth, dawns a syrzas ymhlith llawer o rai eraill.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd Gwledd SYRCAS gyntaf Pontio. Cafodd y digwyddiad ei gynnal dros gyfnod o 8 diwrnod ym mis Gorffennaf, o fewn ac o amgylch y ddinas ac roedd yn troi o amgylch 10 perfformiad o FLOWN, sioe arobryn *Pirates of the Carabina*, cwmni syrzas gyfoes mewn pabell fawr ar Ffordd y Traeth. Daeth bron i 5,000 o bobl i Fangor i weld y sioeau.

Gwnaeth Pontio ddefnydd llawn o ganol y ddinas ar gyfer perfformiadau ar y stryd, gweithdai sgiliau syrzas, sgwrs am gerddoriaeth syrzas ac artist preswyl

yn siop Pontio. Trefnodd project Blas Pontio orymdaith syrzas drwy'r ddinas ar ddiwrnod marchnad ar thema bwyd. Roedd hyn yn datgan dyfodiad yr ŵyl a rhoddwyd lle canolog i blant ysgol a pherfformwyr lleol yn y digwyddiad.

Safai'r dorf mewn rhyfeddod o flaen perfformiad awyr ysblennydd 'PORTH', a gafodd ei dafluio oddi ar wal allanol yr adeilad. Daeth cannoedd o bobl at ei gilydd dros dair noson i weld triawd dawnsio fertigol yn rhyngweithio'n ddeinamig â thechnoleg mapio taflunydd - y perfformiad cyntaf erioed ar adeilad Pontio.

CLUST I WRANDO

Mae cynhadledd a ddatblygwyd i gynnal trafodaethau a thrafod materion sy'n deillio o fyddardod a cholli clyw, bellach yn ddigwyddiad sydd wedi ei hen sefydlu yng nghalendr y Brifysgol. Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, bu i'r gynhadledd 'Clust i Wrando' ddiweddaraf ddenu'r nifer fwyaf o gynadleddwyr.

Cyllidwyd y gynhadledd gan Ganolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol ac fe'i trefnwyd gan Iona Rhys Cooke o Swyddfa'r Dirprwy Is-ganghellor a Wyn Thomas o'r Ysgol Cerddoriaeth. Mae wedi ei bwriadu ar gyfer unigolion a theuluoedd o ogledd Cymru sydd â phrofiad o fyddardod a cholli clyw.

Mae'r Brifysgol yn cynnal y gynhadledd gyda chefnogaeth gan *Action on Hearing Loss Cymru*, *National Deaf Children Society*, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n dod i'r gynhadledd gymdeithasu, ac yn eu cyflwyno i rwydwaith o arbenigedd a chymorth sydd ar gael iddynt



Pamela Rodgers a'i hwyres, Isabell Rodgers yn y gynhadledd 'Clust i Wrando' ddiwethaf.

Mae llwyddiant ysgubol y gynhadledd wedi arwain at y Brifysgol yn datblygu ei darpariaeth ei hun yn y maes, a hynny drwy gyfrwng ei Chanolfan Ehangu Mynediad. Mewn partneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai, cynhaliwyd pedair sesiwn 'Ymwybyddiaeth o Fyddardod', a dwy sesiwn 'Cyflwyniad i laith Arwyddion Prydeinig' eleni, gyda thros 120 o fyfyrwyr ac aelodau staff yn dod i gyd.

Gan fanteisio ar lwyddiant y sesiynau hyn, mae'r Ganolfan Ehangu Mynediad a'r gynhadledd 'Clust i Wrando', gan weithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai unwaith eto, wedi datblygu cwrs 10 wythnos 'Cyflwyniad i laith Arwyddion Prydeinig' ar gyfer 2015/16.

CYFLE GWIRFODDOLI CYMUNEDOL

Cynhaliodd Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor ei ail ddigwyddiad gwirfoddoli preswyl lle treuliodd 21 o fyfyrwyr wythnos yn gweithio yng nghanolfan Felin Uchaf ger Aberdaron ar Benrhyn Llŷn.

Mae Felin Uchaf yn fenter gymdeithasol cefn gwlad sy'n archwilio ac yn hyrwyddo dulliau o fyw mewn partneriaeth greadigol a chytgord â'r amgylchedd. Er 2004 mae'r elusen wedi bod wrthi'n gweddwedd ffermdy traddodiadol Cymreig a'r tir o'i amgylch yn fenter i ymwelwyr a'r gymuned. Eu nod yw helpu i greu a chefnogi busnesau a mentrau gwledig newydd sy'n gydnaws yn amgylcheddol ac yn gwneud defnydd cyfrifol o adnoddau naturiol yr ardal.

Cynorthwyodd gwirfoddolwyr o'r Brifysgol gyda'r gwaith o ddatblygu adeilad newydd ffrâm goed a fydd yn gartref i ganolfan ymwelwyr newydd.

Dywedodd Dafydd Davies-Hughes, Rheolwr Project Felin Uchaf: "Roedd



Y tîm Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor yn Felin Uchaf.

cyfraniad y myfyrwyr tuag at ein menter yn enfawr. Mae'n ein galluogi i fynd i'r afael â phrojectau uchelgeisiol ymarferol sy'n gofyn am ymdrech tîm ac yn rhoi profiad ymarferol gwerthfawr o weithio ar broject cymunedol ar y tir i'r gwirfoddolwyr. Yn ogystal â gweithio gyda rhai o bob rhan o'r byd a chydag amrywiaeth o gefndiroedd, roeddem yn rhannu cinio, cerddoriaeth ac adrodd straeon yn y tŷ crwn Celtaidd. Mae'n ffordd wych i greu cyfeillgarwch newydd ac i ddod i adnabod rhan brydferth o'r

ardal leol, ei diwylliant a'i thraddodiadau. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r myfyrwyr anhygoel hyn yn ôl eto'r flwyddyn nesaf!"

Mynegodd Siôn Rowlands, Swyddog Gwirfoddoli GMB: "Roedd yno fyfyrwyr o wahanol ysgolion academiaidd, o wahanol wledydd ac ar wahanol gamau yn eu haddysg prifysgol, a daeth pawb ynghyd i weithio tuag at achos teilwng iawn. Fedra i ddim disgwyl mynd yn ôl yno!"